Christopher: 3edd ganrif

Nawddsant y teithwyr

Gostyngeiddrwydd / dyfalbarhad / amynedd

Cawr mawr oedd Offero. Gallai godi tŷ mawr ar gledr ei law. Gallai gario dwy goeden fawr ar ei ysgwyddau. Weithiau byddai'n cario deg o blant ar ei gefn. Er ei fod yn gawr o ddyn, eto i gyd, roedd yn ddyn tyner iawn. Fuasai o byth yn gwneud drwg i neb.

Un diwrnod penderfynodd ei fod eisiau gweithio i frenin mwya'r byd. Daeth ar draws byddin o filwyr.

"Rydw i eisiau gweithio i frenin mwya'r byd," meddai wrth y milwyr. "Ydych chi'n gwybod ble mae'n byw?"

Pwyntiodd un o'r milwyr tua'r palas oedd ar ben y mynydd. Brasgamodd Offero i fyny'r mynydd.

"Ga i weithio i ti? Ti, meddai'r milwyr, ydi'r brenin mwyaf yn y byd."

"Cei, wir," atebodd y brenin.

Ond yn fuan sylwodd Offero fod ar y brenin ofn un oedd yn cael ei alw'n Frenin Drwg, Drwg. "Pwy ydi'r Brenin Drwg, Drwg?" gofynnodd Offero i'r brenin un diwrnod.

"Y fo ydi'r dyn mwyaf drwg yn y byd i gyd. Mae arna i ei ofn o am fy mywyd," atebodd y brenin.

"Yna," meddai Offero, "mae'n rhaid i mi fynd i weithio iddo fo." Ac i ffwrdd ag ef i chwilio am balas y Brenin Drwg, Drwg.

Yno, yng nghrombil y mynyddoedd, roedd palas y Brenin Drwg, Drwg. Curodd Offero ar ddrws y palas. Cafodd groeso mawr.

"Mae gen i ddigon o waith i ti ei wneud," meddai'r Brenin Drwg, Drwg. Ond yn fuan sylwodd Offero fod y Brenin Drwg, Drwg yn dechrau crynu pan fyddai'n mynd heibio'r groes bren oedd ar ochr y mynydd.

Gofynnodd Offero iddo, "Pam ydych chi'n crynu mewn ofn wrth basio'r groes bren?"

"Nid ofni'r groes ydw i, ond ofni Crist fu farw ar y groes," oedd ateb y Brenin Drwg, Drwg.

"Wel," meddai Offero, "mae'n rhaid i mi fynd i weithio i Grist fu farw ar y groes." Bu'n chwilio a chwilio am Iesu Grist. Un diwrnod daeth ar draws dyn oedd yn gweddïo ar lan afon. "Wyt ti'n adnabod Iesu Grist?" gofynnodd iddo. "Ydw," oedd ateb y dyn.

"Ble mae o felly?" gofynnodd Offero.

"Mae o ymhobman," oedd yr ateb. "Fe ddoi di o hyd iddo wrth i ti weddïo."

"Dydw i ddim yn gwybod sut i weddïo," meddai Offero. "Yr

unig beth fedra i wneud ydi gweithio."

"Gweithia di yn y fan yma," meddai'r dyn wrtho. "Fel y gweli, does yna ddim pont yma i groesi'r dŵr. Felly gan dy fod yn ddyn cryf, fe gei di gario pobl a phlant ar dy gefn." Cytunodd Offero.

Un noson daeth storm enbyd. "Fydd yna neb eisiau croesi'r dŵr heno, mi af i'r tŷ ac eistedd wrth y tân," meddai Offero wrtho'i hun.

Clywodd sŵn crio y tu allan. Aeth i'r drws. Gwelodd fachgen bychan yn beichio crio, "Rydw i eisiau croesi'r afon a does yna neb yma i'm helpu," meddai'r bachgen yn drist.

"Dim problem o gwbl," atebodd Offero. "Tyrd i fyny ar fy nghefn," a chychwynnodd y ddau ar draws yr afon. Ond gwaethygodd y storm ac roedd y bachgen yn mynd yn drymach ac yn drymach. Roedd Offero yn ofni am ei fywyd. Beth petai'n boddi a'r bachgen bach ar ei gefn? Rywsut, rywfodd cyrhaeddodd yr ochr draw. Gofynnodd Offero, "Pwy wyt ti? Rydw i wedi cario cannoedd o bobl ar fy nghefn ond ti ydi'r person trymaf rwyf wedi'i gario erioed."

"Y fi ydi Crist," meddai'r plentyn. "Rwyf yn drwm gan fy mod yn gorfod cario drygioni'r byd i gyd. Mae holl ddrygau'r byd i gyd ar fy nghefn i. Gan dy fod wedi dod â fi'n saff dros yr afon, mi rydw i am roi enw newydd i ti. O hyn ymlaen, Christopher fyddi di. Fe wyddost ti beth yw ystyr Christopher?"

"Na," meddai Offero.

"Ystyr Christopher ydi un sydd wedi cario Crist."

"Felly, chi ydi Iesu Grist?" meddai Offero.

"Ie," meddai'r plentyn. "Fe gei di weithio i'r brenin mwyaf yn y byd o hyn allan."

"... y mae'n rhaid cynorthwyo'r rhai gwan..."
Actau 20:35

O Dduw,
mi rydw i eisiau bod yn gryf,
yn gryf iawn.
Ond mi rydw i eisiau bod
yn gryf i wneud pethau da
ac nid pethau drwg.
Amen.

Fedrwch chi restru pethau drwg sy'n hawdd i'w gwneud a phethau da sy'n anodd i'w gwneud?

Christopher: 3edd ganrif